**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 TACHWEDD, 2020**

**CYNHALIWYD Y CYFARFOD AR ZOOM**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng. Mark Davies (cadeirydd) | Cyng. Emyr Jones (is-gadeirydd) |
| | Cyng. Owenna Davies | Cyng. Maldwyn Lewis |
| | Cyng. Ceri Jones | Cyng. Julie Davies |
| | Cyng. Sharon Thomas | Cyng. Roger Davies |

**Ymddiheuriadau** Cyng. Evan John Jones

**Clerc** Margaret Jones

| Eitem ar yr Agenda | | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gyng Evan John Jones. | | |
| 2 | Datgelu Buddiannau | Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. | | |
| 3 | Adroddiad y Cynghorydd Sir | Diolchodd Cyng Maldwyn Lewis i bawb yn y gymuned am eu hymdrechion yn ystod y cyfnod anodd oherwydd Covid. Yn ogystal, diolchodd i holl staff GIG a staff y cyngor am weithio gartref yn ystod y cyfnod ansicr hwn. | | |
| | Diweddariad lleol | Lamp stryd Brongest (ger Brynbedw) – mae'r mater wedi cael ei ddatrys erbyn hyn.<br>Ers glanhau'r draeniau/cwteri ar ochr y ffordd, mae'r dŵr glaw yn llifo i'r draeniau yn well.<br>O ran y siop a swyddfa'r post yn Ffostrasol – dim newyddion eto, bydd yn rhaid i ni aros i weld beth fydd y perchennog yn ei wneud.<br>Bu Tafarn Ffostrasol ar gau am gyfnod byr gan nad oeddent yn dilyn y rheolau ynghylch tracio ac olrhain oherwydd Covid. Fodd bynnag, mae'r safle bellach wedi ailagor. | | |
| | | Hysbysodd Cyng. Maldwyn Lewis y cyfarfod o'r help ffyrlo sydd ar gael i fusnesau lleol hefyd. Gellir cysylltu â Busnes Cymru ar (01267) 233749. Rhoddir y wybodaeth hon ar y wefan. | **Clerc** | |
| | | Hefyd ar gyfer y wefan, dylid diweddaru'r manylion i nodi bod Mark Webb, cigydd, Rhydlewis yn gallu dosbarthu archebion i gartrefi pobl. Y rhif cyswllt yw (01239) 851285 | **Clerc** | |
| | | Yn ogystal, hysbysodd Cyng Owenna Davies y cyfarfod bod y Banc Bwyd yn Llandysul wedi bod yn hynod o brysur dros y misoedd diwethaf a phe bai unrhyw un yn dymuno rhoi, eu bod wastad yn chwilio am fwyd sych ac eitemau ar gyfer y tŷ. Rhif cyswllt y Banc Bwyd yw 07508 366423<br>Nid yw'r Banc Bwyd wedi cael unrhyw rai o'r rhoddion arferol eleni gan nad yw capeli, eglwysi ac ati wedi gallu cynnal eu Gwasanaethau Diolchgarwch blynyddol. | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | Nododd Cyng. Maldwyn Lewis hefyd y bu'r protocol yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod Covid yn dda iawn, er bod nifer yr achosion positif wedi bod yn cynyddu dros y diwrnodau diwethaf yn anffodus. Ceir achosion positif mewn cartref gofal yn Aberystwyth, ond mae Cyngor Ceredigion wedi nodi bod achosion ymhlith y myfyrwyr yn Aberystwyth yn setlo.<br><br>Roedd Cyng Lewis yn dymuno llongyfarch Cyfarwyddwr Gweithredol Cyngor Sir Ceredigion hefyd am gael ei anrhydeddu am ei waith yn ystod y cyfnod Covid.<br><br>Yn ogystal, atgoffwyd yr aelodau gan Gyng. Lewis o'r ffaith bod yr ymgynghoriad ar-lein ar gael ynghylch cau strydoedd yn Aberteifi, Aberaeron, Ceinewydd ac ati.<br><br>Mae Kickstart Cymru (manylion cyswllt trwy Antur Teifi) (01239) 710237 ar gael i helpu pobl ifanc i ddychwelyd i'r gweithle, ac maent yn cynnig grantiau i fusnesau lleol er mwyn eu cyflogi. **Clerc** |
| 4. | Gohebiaeth | Nid oedd y Clerc newydd wedi cael unrhyw ohebiaeth. |
| 5. | Ariannol | HMRC – 2 siec am y swm o £42.40 yr un<br>Ashmole - £78.00<br>Cyflog y Clerc - £170 |
| 6. | Cynllunio | Gwelwyd rhai ceisiadau cynllunio a deliwyd â nhw trwy negeseuon e-bost cyn y cyfarfod hwn. Trafodwyd un cais – Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau ar yr amod y cydymffurfir â'r holl reolau a'r rheoliadau cynllunio. Roedd pawb yn cytuno. |
| 7. | Materion Ardal | <u>Coed Nadolig</u> – Gofynnodd Cyng Owenna Davies a fyddai modd prynu coeden Nadolig ar gyfer Ffostrasol oherwydd y byddai hyn yn codi ysbryd pawb ar ôl blwyddyn anodd. Gosodir coeden ger y sgwâr a gwneir ymholiadau gyda Mr. Arthur Davies, Tafarn Ffostrasol. Byddai Cyng. Sharon Thomas yn gwneud ymholiadau ynghylch cael coeden yn lleol. Holwyd am ofynion cynllunio ac yswiriant. Nid oedd Cyng. Maldwyn Lewis yn siŵr am y gofynion cynllunio. Bydd Mags yn holi am yr yswiriant. **Cyng. Sh T Cyng ML Clerc**<br><br>Penderfynwyd y dylai pob pentref/cymuned gael coeden Nadolig.<br><u>Ffostrasol</u> – Yn ystod stormydd a glaw trwm, mae dŵr glaw yn dod allan o'r draeniau ac yn mynd ar y ffordd ac i eiddo pobl, gan gynnwys dŵr brwnt, a bu'n rhaid i Ddŵr Cymru ddod allan i lanhau. Awgrymodd Cyng. Maldwyn Lewis y dylid cynnal cyfarfod gyda Phenrhos i drafod y broblem. Atgoffwyd y cyfarfod gan Gyng. Owenna Davies nad bai y Cyngor oedd hyn i gyd, gan bod y tywydd wedi bod yn stormus iawn. Roedd y ffyrdd fel afon. Caiff y mater ei ystyried yn fanylach.<br><br><u>Rhydlewis</u> – mae twll yn y ffordd rhwng lle Mark Webb Cigydd a'r capel, yng nghanol y ffordd.<br><br><u>Croes-lan</u> – Mae 2 breswylydd yn yr ysbyty yn dioddef o Covid. Dymunir gwellhad buan iddynt. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Maesllyn – Llygod mawr mewn gardd gefn (20-30 ar yr un pryd)<br>Dylid cysylltu ag Iechyd yr Amgylchedd. Cyng. J D |
| 8. | Archwiliad | Dim newyddion/diweddariad.<br>Gwneir ymholiadau cyn y cyfarfod nesaf os na fydd unrhyw ohebiaeth wedi cyrraedd. Mae'r Clerc blaenorol yn fodlon cynorthwyo'r Clerc newydd gyda'r ffurflenni<br><br>Awgrymodd Cyng. Maldwyn Lewis y gallai Mr. Denver Morgan (Aberaeron) neu Mr. Gwyn Jones, un o gyn swyddogion Ceredigion, fod yn gallu cynorthwyo.<br><br>Rydym yn aros i glywed yn ôl am yr archwiliad allanol.<br><br>Materion y mae angen delio â nhw cyn ceisio archwilydd. Bydd Cyng. Mark Davies a Chyng. Maldwyn Lewis yn siarad gyda Mr. Denver Morgan er mwyn iddo gynorthwyo gyda'r archwiliad. Cyng M D<br>Cyng M L |
| 9. | Ffurflenni Grant | Mae ffurflenni cais am grantiau ar gael ar y wefan. Gan na fydd sefydliadau yn cwrdd cyn y Nadolig, awgrymwyd y dylid ymestyn y dyddiad cau. Trafodwyd hyn ond penderfynwyd cadw'r dyddiad fel ag y mae, ond y dylid anfon llythyr a ffurflen at bawb a gyflwynodd gais ym mis Rhagfyr 2018 a 2019. Clerc |
| 10. | Ffurflenni Banc | Mae angen diwygio'r cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth<br>Gwnaethpwyd sawl ymgais i ddiwygio'r cyfeiriad a manylion y llofnodwyr, ond nid yw'r banc wedi diweddaru unrhyw beth. Bydd y clerc yn cysylltu â chyn reolwr banc NatWest Aberteifi i ofyn am gyngor. |
| 11. | | Bydd angen trefnu cyfarfod i drafod y cynllun ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Trafodir hyn yn ystod y cyfarfod nesaf os bydd digon o amser, neu fel arall, bydd angen trefnu cyfarfod ar wahân. |
| 12. | Cyfarfod Nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth 1 Rhagfyr 2020 am 7.30 p.m., ar Zoom unwaith eto. Cost trwydded Zoom flynyddol yw £119.90. Penderfynwyd trafod hyn yn ystod y cyfarfod nesaf. |
| 13. | Eitemau ar gyfer y Cyfarfod Nesaf | Ffurflenni Grant<br>Cynllunio cyllideb<br>Archwiliad<br>Materion Ardal<br>Adroddiad y Cynghorydd Sir<br>Gohebiaeth<br><br>Gosod yr agenda mewn hysbysfyrddau cyn y cyfarfod nesaf Clerc |